Our anti-racist journey in Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

When Welsh Government published their Anti-racist Wales Action Plan to make a difference to the lives of Global Majorities, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs approached consultant Michelle Alexis, now Portfolio Manager for Inclusion at the BBC, to develop our own understanding and learning. Back in 2021, and taking a whole organisational approach, Michelle delivered training and facilitated group work to help us develop our own action plan. With Michelle's knowledge, lived experience, positivity and encouragement, we were able to identify gaps and build a plan taking a 3 tiered approach: organisation; staff and; clubs. Actions identified were then built into our organisational strategy.

At the same time, Michelle developed workshops for clubs to build their awareness and make the first steps to developing their own anti-racist practice, which were delivered alongside other workshops to promote awareness of neurodiversity and transgender considerations, so that every child can feel welcomed, included and reach their full potential.

One of the first things we implemented from our plan, was to start using an inclusive decision making tool. This is a simple and effective way to help us ensure we consider everyone in our planning and decision making. With time, we found that anti-racist considerations happen more instinctively and, with the help of topic champions, are kept at the forefront.

| Policy change / Decision/Action: | Protected Characteristic | Positive | Adverse | Neutral | Solution / Notes |
|---|---|---|---|---|---|
| Policies for clubs | Race | x | | | An EDI/Anti racist working group will look at policies for clubs, create content for weekly email & ensure cultural events are promoted on socials – ongoing. |
| | Gender | x | | | |
| | Age | x | | | |
| | Disability | x | | | |
| | Religion or Belief | x | | | |
| All policies will be reviewed and updated. | Race | x | | | Anti Racist considerations were being added to all policies reviewed. |
| | Gender | x | | | |
| | Age | x | | | |
| | Disability | x | | | |
| | Religion or Belief | x | | | |

There is a need to truly reflect and include all people that make up our communities in management roles, staffing and children and families using services and we also began sharing Board and job vacancies with those who represent Global Majorities and we aim to continually build this network. In developing short videos to promote clubs and Playwork as a career, we took heed to ensure diverse representation to encourage and motivate others. Hear why diversity in the Out of School Childcare workforce is important from Playworker and Trustee Areatha Comanescu here.

As DARPL (Diversity and Anti-Racist Professional Learning) training become available, we were able to refresh and update our training across the organisation. We also adapted this training as part of the Cwlwm/DARPL partnership for the Early Years, Childcare and Playwork sector, that can be accessed for free here. We continue to promote this training to the sector as we know how powerful it can be in making positive changes. Paula, one of our Childcare Business Development Officers (CBDO) explains:

> "More than anything, it has made me stop, think and adapt my ways and thinking about how I see others. It has made me embrace diversity more and want to improve my knowledge. Having done the DARPL training, I am now confident in referring settings to do the training as it was so worthwhile. I encourage settings to embrace all celebrations and festivals and I make them aware that encouraging children and parents to share their own experiences is also beneficial, along with having diverse toys/books/wall displays, to play with and look at."

Download our Equality Play Checklist and suggestions on books, arts and crafts, toys and games, music and outside play reflecting the whole range of diversity here.

Of course, learning is an ongoing process and we have been building a library of useful articles and books for our own staff. Sian, another CBDO says

> "The DARPL training made me realise anti-racism is a ball we need to keep up in the air and never let it drop. A daunting course to attend without knowing what to expect but as the trainer taught us, now is the time to be brave and talk in order to truly learn.
>
> As a sector we can make a difference to the lives of children, now and in the future but we need to keep the conversation going and embed anti-racism in everything we do. The DARPL training is the first step of a very important journey, but it mustn't end there – the work and commitment that we do after the training is what will truly make a difference. The DARPL training is an important course for all staff, not just managers and can support childcare providers to take a whole setting approach".

As awareness and learning filtered through staff, so our resources for the sector evolved. Exploring and celebrating diversity of Welsh backgrounds will support all children to have a broad understanding of themselves and each other – this is equally important in diverse communities and in communities that are not as diverse. Whilst we had always taken care to celebrate a range of cultures, we stepped up our approach and the play activities in our weekly bulletins and quarterly newsletter become more diverse and a webinar and resource, celebrating diversity was developed for our clubs. We also developed a Equality, Diversity, Inclusion themed Y Bont

newsletter, a '10 Ways…' resource on how to promote diversity for the next generation, racial microaggressions and '10 ways to help your setting recognise and celebrate cultural diversity'. We have also been able to use local funding to purchase specific books and resources to promote diversity for clubs in some areas.

A series of resources: 'My Rights in My Out of School Club' can also be used to support the children to understand their rights on a monthly basis throughout the year and feed into settings' key policies, some of which are particularly relevant to respecting diversity such as UNCRC Articles 14 and 7 - a right to follow your own religion and to a name and nationality.

Our work with Welsh Government continues with 3 key aims for the sector:

1. Improving the experience within the workplace so that staff will work in safe, inclusive environments.
2. Offering more culturally appropriate provision, improving access to childcare and playwork settings as well as access opportunities to play.
3. Improving the experience of children so that all children will have the opportunity to explore and celebrate racial diversity in a positive and supportive way.

We were so pleased that one of our Trustees successfully applied for the role of Welsh Government's Childcare and Playwork Community Mentors to directly influence anti-racist policy and practice in the sector. Our Trustee Areatha tells us about her experiences and insights in her blog here [Cyflwyno Mentor Cymunedol Gwrth-Hiliol Llywodraeth Cymru, Areatha Comanescu - Clybiau Plant Cymru (CY)].

A potential area of work where we can make a significant impact is through our delivery of Playwork qualifications. Qualifying close to 100 Playworkers a year, who potentially engage with at least 1000 children, the Training Team mandate that Playwork Apprentices undertake anti-racist research and encourage them to undertake further training. They are planning for one of the Community Mentors to talk to learners about the impact of the DARPL training and create a stand alone video resource.

We have been updating our organisatation policies with EDI as a focus, not just limiting it to an EDI/Equal opportunities policy, but threading it through our recruitment, health and safety, bullying and harassment policies and so on.

Although everyone has undertaken the training, we identify topic champions amongst our staff and Trustees and have set up an anti-racist working group, which allows us to advance organisational knowledge, improve and expand our connections and have individuals who will keep equity, diversity and inclusion at the forefront of our learning, discussions, resources and decision making.

We will shortly be launching this year's National Club Survey and will include questions exploring how anti-racism is encouraged within settings to determine how we can provide more bespoke support to settings.

We remain very much committed to enriching the diversity of the organisation, especially as we continue to grow the organisation, recruit new Trustees and qualify Playworkers and are trying to build our contacts with individuals and organisations that support and represent Global Majorities in Wales.

If you'd like to share ideas or get involved in any way as we progress our anti- racist work, we'd love to hear from you: info@clybiauplantcymru.org

Alex Fudge, Development Manager, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
September 2023

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Ein taith wrth-hiliaeth yng Nghlybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru i wneud gwahaniaeth i fywydau Mwyafrifoedd Byd-eang, cysylltodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs â'r ymgynghorydd Michelle Alexis, sydd bellach yn Rheolwr Portffolio ar gyfer Cynhwysiant yn y BBC, i ddatblygu ein dealltwriaeth a'n dysgu ein hunain. Yn ôl yn 2021, a chan ddefnyddio dull sefydliadol cyfan, cyflwynodd Michelle hyfforddiant a hwyluso gwaith grŵp i'n helpu i ddatblygu ein cynllun gweithredu ein hunain. Gyda gwybodaeth Michelle, profiad bywyd, positifrwydd ac anogaeth, roeddem yn gallu nodi bylchau ac adeiladu cynllun gan ddefnyddio dull tair haen: sefydliad; staff a chlybiau. Yna cafodd y camau gweithredu a nodwyd eu cynnwys yn ein strategaeth sefydliadol.

Ar yr un pryd, datblygodd Michelle weithdai i glybiau adeiladu eu hymwybyddiaeth a chymryd y camau cyntaf i ddatblygu eu hymarfer gwrth-hiliaeth eu hunain, a gyflwynwyd ochr yn ochr â gweithdai eraill i hybu ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth ac ystyriaethau trawsrywiol, fel bod pob plentyn yn gallu teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Un o'r pethau cyntaf a weithredwyd gennym o'n cynllun oedd dechrau defnyddio erfyn penderfynu cynhwysol. Mae hon yn ffordd syml ac effeithiol i'n helpu i sicrhau ein bod yn ystyried pawb wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Gydag amser, canfuom fod ystyriaethau gwrth-hiliol yn digwydd yn fwy greddfol, a chyda chymorth hyrwyddwyr pwnc, yn cael eu cadw ar flaen y gad.

| Newid mewn polisi / Penderfyniad/Cam gweithredu: | Nodwedd Warchodedig | Cadranhaol | Niweidiol | Niwtral | Ateb / Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Polisïau i glybiau | Hil | x | | | Bydd grŵp CAC (Cyfartaledd, Amrywedd, Cynhwysiant) yn edrych ar bolisïau i glybiau, yn creu cynnwys ar gyfer yr ebost wythnosol ac yn sicrhau bod digwyddiadau diwylliannol yn cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithsol – yn mynd rhagddo. |
| | Rhywedd | x | | | |
| | Oed | x | | | |
| | Anabledd | x | | | |
| | Crefydd neu Gred | x | | | |
| Bydd pob polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru. | Hil | x | | | Ychwanegwyd ystyriaethau Gwrth-Hiliol i'r holl bolisïau a adolygwyd. |
| | Rhywedd | x | | | |
| | Oed | x | | | |
| | Anabledd | x | | | |
| | Crefydd neu Gred | x | | | |

Mae angen gwir adfyfyrio a chynnwys yn wirioneddol yr holl bobl sy'n rhan o'n cymunedau mewn rolau rheoli, staffio a phlant a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau, a gwnaethom ddechrau hefyd rannu swyddi gwag ar y Bwrdd a swyddi gwag â'r rhai sy'n cynrychioli'r Mwyafrif Byd-eang a'n nod yw adeiladu'r rhwydwaith hwn yn barhaus. Wrth ddatblygu fideos byr i hyrwyddo clybiau a Gwaith Chwarae fel gyrfa, fe wnaethom gymryd sylw i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol i annog ac ysgogi eraill. Clywch yma gan y Gweithiwr Chwarae a'r

Ymddiriedolwr, Areatha Comanescu, pam fod amrywiaeth yn y gweithlu Gofal Plant All-Ysgol yn bwysig.

Wrth i hyfforddiant DARPL (Diversity and Anti-Racist Professional Learning) ddod ar gael, roedd modd i ni adnewyddu a diweddaru ein hyfforddiant ar draws y sefydliad. Fe wnaethon hefyd addasu'r hyfforddiant hwn fel rhan o bartneriaeth Cwlwm/DARPL ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, y gellir ei gyrchu'n rhad ac am ddim yma. Rydym yn parhau i hyrwyddo'r hyfforddiant hwn i'r sector gan ein bod yn gwybod pa mor rymus y gall fod i wneud newidiadau cadarnhaol. Dyma eglurhad gan Paula, un o'n Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant (SDBG):

> "Yn fwy nad dim, mae wedi gwneud i mi stopio, i feddwl ac addasu fy ffyrdd, a meddwl am sut rydw i'n gweld eraill. Mae wedi gwneud i mi gofleidio amrywedd yn fwy, ac wedi rhoi'r awydd i mi wella fy ngwybodaeth. A minnau wedi gwneud yr hyfforddiant DARPL, rwyf yn awr yn teimlo'n hyderus i atgyfeirio lleoliadau i wneud yr hyfforddiant gan iddo yn sicr fod yn werth ei wneud. Rwy'n annog lleoliadau i gofleidio pob dathliad a gŵyl , ac rwy'n eu gwneud yn ymwybodol fod annog plant a rhieni i rannu eu profiadau eu hunain o fudd hefyd, ynghyd â bod ag amrywiol deganau/llyfrau/arddangosiadau wal i chwarae â nhw/edrych arnyn nhw."

Lawrlwythwch ein Rhestr Wirio Chwarae Cyfartal ac awgrymiadau ar lyfrau, celf a chrefft, teganau a gemau a chwarae y tu allan sy'n adlewyrchu holl rychwant amrywedd yma.

Mae dysgu, wrth gwrs, yn broses barhaus, ac rydym wedi bod yn adeiladu llyfrgell o erthyglau a llyfrau ar gyfer ein staff ein hunain. Dywed Sian, SDBG arall

> "Gwaeth yr hyfforddiant ar DARPL i mi sylweddoli bod hiliaeth yn bêl y mae angen i ni ei chadw yn yr awyr a pheidio gadael iddi syrthio. Cwrs eithaf brawychus i'w fynychu heb wybod beth i'w ddisgwyl, ond, fel y cawsom ein dysgu gan yr hyfforddwr, yn awr yw'r amser i fod yn ddewr ac i siarad er mwyn dysgu mewn gwirionedd.
>
> Fel sector gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau plant, yn awr ac yn y dyfodol, ond mae angen i ni gadw'r sgwrs i fynd, a gwreiddio gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn. Mae'r hyfforddiant ar DARPL yn gam cyntaf taith bwysig iawn, ond rhaid iddi beidio â gorffen yn y fan honno - yr hyn a wnaiff wahaniaeth gwirioneddol fydd beth a wnawn ni wedi'r hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant ar DARPL yn gwrs pwysig i bob aelod o'r staff, nid rheolwyr yn unig, a gall fod o gymorth i ddarparwyr gofal plant gymryd agwedd lleoliad-cyfan".

Wrth i ymwybyddiaeth a dysgu dreiddio trwy staff, esblygodd ein hadnoddau ar gyfer y sector hefyd. Bydd archwilio a dathlu amrywiaeth cefndiroedd Cymreig yn cefnogi pob plentyn i gael dealltwriaeth eang o'i hun ac o'i gilydd – mae hyn yr un mor bwysig mewn cymunedau amrywiol ac mewn cymunedau nad ydynt mor amryweddol. Er ein bod bob amser wedi bod yn ofalus i ddathlu amrywiaeth o ddiwylliannau, fe wnaethom wella ein dulliau; daeth y gweithgareddau chwarae yn ein bwletinau wythnosol a'n cylchlythyr chwarterol yn fwy amrywiol a datblygwyd gweminar ac adnodd i ddathlu amrywiaeth ar gyfer ein clybiau. Fe wnaethom hefyd ddatblygu eich cylchlythyr, Y Bont, ar thema Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant, adnodd '10 Ffordd ...' ar sut i hyrwyddo amrywiaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf, micro-ymosodedd hiliol a '10 ffordd o helpu eich lleoliad i gydnabod a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol'. Rydym hefyd wedi gallu defnyddio cyllid lleol i brynu llyfrau ac adnoddau penodol i hybu amrywiaeth i glybiau mewn rhai ardaloedd.

Gellir hefyd ddefnyddio cyfres o adnoddau: 'Fy Hawliau i yn fy Nghlwb All-ysgol i' i gynorthwyo'r plant i ddeall eu hawliau yn fisol drwy'r flwyddyn, a chynnwys yr adnoddau hyn ym mholisïau allweddol lleoliadau; mae rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i barchu amrywedd, megis Erthyglau 14 a 7 y CCUHP – yr hawl i ddilyn eich crefydd eich hun, i gael enw a chenedligrwydd.

Mae ein **gwaith gyda Llywodraeth Cymru**'n parhau, â 3 phrif nod i'r sector:

1. Gwella'r profiad yn y gweithle er mwyn sicrhau y bydd y staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol.
2. Cynnig darpariaeth sy'n fwy diwylliannol-briodol, gwella'r mynediad at leoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn ogystal â chyrchu cyfleoedd i chware.
3. Gwella profiad y plant fel bod pob plentyn yn cael y cyfle i ymchwilio i amrywedd hil, a'i ddathlu, mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol.

Roeddem mor falch fod un o'n Hymddiriedolwyr wedi gwneud cais llwyddiannus am rôl fel un o **Fentoriaid Cymunedau Gofal Plant a Chwarae** Llywodraeth Cymru i ddylanwadu'n uniongyrchol ar bolisïau ac arferion gwrth-hiliol yn y sector Bydd ein Hymddiriedolwr, Areatha, yn dweud wrthym yn ei blog am ei phrofiadau a'i mewnwelediadau yma

Un maes posibl o waith lle y gallwn effeithio'n sylweddol arno yw trwy **gyflenwi cymwysterau Gwaith Chwarae**. Gan gymhwyso bron i 100 o Weithwyr Chwarae y flwyddyn, sydd o bosibl yn ymgysylltu ag o leiaf 1000 o blant, mae'r Tîm Hyfforddi yn ei gwneud yn orfodol fod Prentisiaid Gwaith Chwarae'n cynnal ymchwil gwrth-hiliaeth ac yn eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant pellach. Maent yn cynllunio i un o'r Mentoriaid Cymunedol siarad â dysgwyr am effaith yr hyfforddiant DARPL a chreu adnodd fideo annibynnol.

Rydym wedi bod yn diweddaru ein **polisïau trefniadaeth** gyda CAC yn ffocws, a hynny heb ei gyfyngu i bolisi CAC/cyfle cyfartal, ond yn hytrach ei weu trwy ein polisïau recriwtio, iechyd a diogelwch, bwlio ac aflonyddu ac ati.

Er bod pawb wedi dilyn yr hyfforddiant, rydym yn nodi **hyrwyddwyr pwnc** ymhlith ein staff a'n Hymddiriedolwyr ac wedi sefydlu gweithgor gwrth-hiliaeth, sy'n ein galluogi i ddatblygu gwybodaeth sefydliadol, gwella ac ehangu ein cysylltiadau a chael unigolion a fydd yn cadw tegwch, amrywiaeth a cynhwysiant ar flaen ein dysgu, trafodaethau, adnoddau a gwneud penderfyniadau.

Cyn bo hir byddwn yn lansio'r Arolwg Cenedlaethol o Glybiau eleni a bydd yn cynnwys cwestiynau sy'n archwilio sut mae gwrth-hiliaeth yn cael ei annog mewn lleoliadau i benderfynu sut y gallwn ddarparu cymorth mwy pwrpasol i leoliadau.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn i gyfoethogi amrywiaeth y sefydliad, yn enwedig wrth i ni barhau i dyfu'r sefydliad, recriwtio Ymddiriedolwyr newydd a chymhwyso Gweithwyr Chwarae, ac rydym yn ceisio meithrin ein cysylltiadau ag unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli Mwyafrifoedd Byd-eang yng Nghymru.

Os hoffech rannu syniadau neu fod ynglŷn â hyn mewn unrhyw ffordd wrth i ni symud ymlaen â'n gwaith gwrth-hiliol, fe fyddai'n dda iawn gennym glywed gennych: info@clybiauplantcymru.org

Alex Fudge, Rheolwr Datblygu, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Medi 2023

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs